Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

Swyddog Rhyddid Gwybodaeth
Awdurdod Cyllid Cymru
Blwch Post 110, Pontypridd
CF37 9EH

E-bost: data@acc.llyw.cymru

Annwyl

WRA/FOI/0004: Aflonyddu rhywiol (diwygiedig)

Diolch am eich cais diwygiedig, a dderbyniais ar 5ed o Ragfyr 2018, ynglŷn ag Aflonyddu Rhywiol.

Gallaf gadarnhau bod Awdurdod Cyllid Cymru ("yr Awdurdod") yn cadw rhywfaint o'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani. Yr wybodaeth na ddelir yw unrhyw ymatebion sy'n ymwneud â blynyddoedd ariannol 2015-16 a 2016-17. Nid yw'r wybodaeth hon yn bodoli gan na chafodd yr Awdurdod ei ffurfio tan fis Hydref 2017. Amgaeir yr wybodaeth sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol 2017-2018 (o fis Hydref 2017 ymlaen).

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd y mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Awdurdod Cyllid Cymru yn:

Swyddog Rhyddid Gwybodaeth, Awdurdod Cyllid Cymru,
Blwch Post 110, Pontypridd.
CF37 9EH
neu e-bostiwch: data@acc.llyw.cymru

Cofiwch ddyfynnu'r cyfeirnod uchod.

Mae gennych hefyd hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Sylwch, fodd bynnag, na fydd y Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn hyd nes ei bod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Information Commissioner's Office,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF.
Ffôn: 01625 545 745
E-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Yn gywir